*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 17 MEHEFIN 2024** am **09.30 o'r gloch** yn rhithiol **dros Zoom**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiant**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024**

**5. Materion yn Codi**

**6. Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru**

**7. Cynllun Archwilio Archwilio Cymru 2024**

**8. Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24**

**9. Diweddariad Archwilio Mewnol**

**10. Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2023-24**

**11. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**
Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**12. Dim**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mawrth 2024 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch, yn dilyn sesiwn hyfforddi ar seiberddiogelwch rhwng 09:00 a 09:30.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Mark Young (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwynfor Owen (Dirprwy Gadeirydd) (gadawodd am 11:14) | Cyngor Gwynedd |
| Bryan Apsley (gadawodd am 10:16) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans (o 09:58) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones (o 09:11; gadawodd am 10:19) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones (gadawodd am 10:51) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Catherine Watts | Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy |
| Angharad Ellis | Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy |
| Paul Roberts | Arlingclose |
| Stephen Kitching | Arlingclose |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol – Cofnodydd |

## 1.0 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |

Yn dilyn y sesiwn hyfforddi Seiberddiogelwch, gofynnwyd sut yr adroddir yn ôl wrth yr Aelodau mewn perthynas â Seiberddiogelwch. Ymatebodd PSTC MacArthur fod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) Arweinydd Seiberddiogelwch ar waith ac mai hi ei hun oedd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Roedd proses ar waith o fewn y Gwasanaeth er mwyn monitro a rheoli bygythiadau seiber ac anogwyd yr holl gyflogeion i gymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch seiber eu hunain, gan roi iddynt y dulliau i'w galluogi i wneud hynny.

Cytunwyd y byddai adroddiad ar risgiau seiber o fewn y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu i gyfarfod Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol, fel eitem Rhan II oherwydd natur sensitif ei gynnwys.

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Adroddodd PST Docx ar ddigwyddiadau y mis diwethaf mewn perthynas â'r agweddau diwylliannol sy'n gysylltiedig â'r sector.

Nododd y PST fod y Dirprwy Weinidog dros Bartneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn, ar 26 Chwefror, wedi cyhoeddi ymyriad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) ar yr ystyr bod yr Awdurdod Tân wedi'i ddileu gan Lywodraeth Cymru ac y byddai Comisiynwyr yn cael eu cyflwyno gyda chylch gorchwyl i wella diwylliant y Gwasanaeth. Roedd hefyd angen penodi Prif Swyddog Tân dros dro.

Yn syth ar ôl y cyhoeddiad hwnnw, cysylltodd Dan Stephens, Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru, â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn canfod a oedd unrhyw uwch swyddogion a allai fod â diddordeb i ymgymryd â rôl Prif Swyddog Tân Dros Dro Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan weithio o dan y comisiynwyr. Roedd PSTC Stuart Millington wedi mynegi diddordeb yn y rôl hon ac fe'i penodwyd wedi hynny. O fewn GTAGC, penodwyd Justin Evans i rôl wag y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) yn ystod secondiad Stuart Millington.

Ym mis Mawrth, datblygwyd cynigion ar y cyd rhwng y Gwasanaeth a GTACGC ar gyfer goruchwyliaeth annibynnol o gynnydd GTAGC a GTACGC o ran y diwygiadau diwylliannol a'u rhoi i'r Dirprwy Weinidog. Roedd y cynnig hwn yn cynnwys asesu'r sefyllfa a'r cynnydd yn erbyn canfyddiadau adolygiadau eraill yn y sector gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a sicrhau bod blaenoriaethau'n

cael eu nodi er mwyn cymryd camau pellach. Ar hyn o bryd cynigir y byddai'r un adolygydd yn cael ei ddefnyddio yn GTAGC a GTAACGC. Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad wedi hyn yn dweud y byddai hyn yn digwydd; fodd bynnag, byddai angen i'r gwasanaethau dan sylw ddarparu'r cyllid a gallai hynny gostio hyd at £0.5m.

Ochr yn ochr â hyn, roedd ITV Cymru wedi bod yn rhedeg stori ynglŷn â chŵynion honedig o fewn y Gwasanaeth. Cadarnhaodd y PST fod unrhyw aelod o staff sy'n cael profiad o ymddygiad gwael yn destun pryder iddi ac mae wedi estyn allan at gydweithwyr ac wedi'u hannog i roi gwybod am unrhyw achos o ymddygiad gwael.

Ar 11 Mawrth, rhoddodd y Cadeirydd a'r PST dystiolaeth i'r Fforwm Cydraddoldeb a Phartneriaeth Gymdeithasol yn y Senedd yng Nghaerdydd.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i'r PST am ei diweddariad. Nododd fod angen parhau i gyfathrebu â'r Aelodau er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybod am bob mater. Cadarnhaodd y PST fod y Gwasanaeth yn ceisio lledaenu gwybodaeth mor gyflym â phosibl. Dywedodd hefyd fod bwrdd mewnol yn cael ei lunio i edrych ar fwy o fanylion yr adolygiad, ac y byddai adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i roi gwybod am gynnydd.

Holodd un Aelod ynghylch y swm o arian sydd ei angen i gael yr adolygiad Annibynnol ac atebwyd na ellid darparu ffigur cywir hyd nes y byddai'r cwmpas llawn a'r gwerthuswr annibynnol yn hysbys. Fodd bynnag, pe na bai'r adolygiad yn cael ei arwain gan CB, roedd yn debygol o gostio llai na'r amcangyfrif. Nododd y PST hefyd y byddai angen darparu cefnogaeth i staff presennol a byddai angen ystyried hyn hefyd yn y costau.

Trafodwyd rôl yr Aelodau a chadarnhawyd bod eu mewnbwn yn hanfodol yn enwedig trwy rôl Hyrwyddwr yr Aelodau ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Byddai'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ymwneud â'r bwrdd mewnol, ac felly hefyd aelodau'r Pwyllgor Safonau.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 RHAGFYR 2023

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2023 i'w cymeradwyo.

## 4.2 PENDERFYNWYD:

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5.0 MATERION YN CODI

5.1 Nododd y Trysorydd, mewn perthynas â pharagraff 6.4 a oedd yn cyfeirio at risgiau i'r gyllideb, ei fod wedi cael gwybod y byddai Llywodraeth y DU yn darparu cyllid i Lywodraeth Cymru i'w chefnogi gyda'r costau pensiwn cynyddol, er nad oedd swm y cyllid sydd i'w dderbyn yn hysbys eto.

5.2 Ymhellach, mewn perthynas â 6.6, a oedd yn gofyn am ddatganiad cyffredin o esboniad i'r Aelodau gan y Swyddogion er mwyn i bob un ohonynt ei gyflwyno i'w cynghorau cyfansoddol er mwyn egluro sut y penderfynwyd ar yr ardoll, cyhoeddwyd datganiad esboniadol a'r gobaith oedd bod hyn wedi bod o ddefnydd i'r Aelodau wrth bennu cyllideb.

## 6.0 STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN

6.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn, â'r nod o ddarparu fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn (y Strategaeth) i'r Aelodau.

6.2 Gofynnodd Aelod a oedd y risg mewn perthynas â phensiynau yn cael ei gwmpasu gan gronfeydd wrth gefn ac ymatebodd PSTC MacArthur y byddai'r effaith ariannol oddeutu £300,000. Roedd yn parhau i fod yn risg agored; fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymdrin â hyn. Pe na byddai hyn yn digwydd, byddai angen gofyn am ganiatâd i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

**6.3 PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn fel sail i reoli'r cronfeydd defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod.**

## 7.0 CYFLWYNIAD AR Y TROSOLWG O'R TRYSORLYS, RHEOLAETH A CHYFALAF GAN ARLINGCLOSE

7.1 Cyflwynwyd Paul Roberts a Stephen Kitching i'r Aelodau ac esboniwyd eu rôl gyda'r Gwasanaeth. Cafwyd cyflwyniad ar y trosolwg o'r trysorlys, rheolaeth a chyfalaf.

**7.2 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys y cyflwyniad**

## 8.0 ADRODDIAD DIWEDDARU RHEOLI'R TRYSORLYS CH3 2023/24

8.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards adroddiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer chwarter 3 2023-24. Pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am weithgarwch rheoli'r trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 30 Rhagfyr 2023.

**8.2 PENDERFYNWYD:**

**i)** nodi’r gweithgarwch rheoli’r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill - 31 Rhagfyr 2023.

**9.0 ARFERION RHEOLI’R TRYSORLYS**

9.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, adroddiad Arferion Rheoli'r Trysorlys a oedd yn cynghori'r Aelodau bod Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ar Reoli'r Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo arferion, egwyddorion ac atodlenni perthnasol yn flynyddol. Roedd angen y rhain er mwyn sicrhau bod polisi Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn cael ei osod a bod yr Awdurdod yn cadw ato, ac i sefydlu arferion gwaith a rheolaethau er mwyn gweithredu'r strategaeth a gymeradwywyd.

**9.2 PENDERFYNWYD:**

**i) argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo Arferion, Egwyddorion ac Atodlenni Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 fel y nodir yn yr adroddiad hwn a'r Atodiad. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli’r Trysorlys.**

**10.0 STRATEGAETH RHEOLI’R TRYSORLYS 2024/25**

10.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 a oedd yn cyflwyno i'r Aelodau y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Rhoddodd fanylion ac esboniadau iddynt ynghylch y Strategaeth arfaethedig, er mwyn hwyluso cefnogaeth yr Aelodau i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod ar 15 Ebrill, a rhoi sylfaen gadarn i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer eu gwaith monitro a chraffu chwarterol ar weithgarwch Rheoli Trysorlys yn ystod 2024-25.

**10.2 PENDERFYNWYD:**

**i)** cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25; ac
**ii) i)** argymell cymeradwyaeth gan yr Awdurdod.

**11.0 STRATEGAETH GYFALAF 2024/34**

11.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Strategaeth Gyfalaf 2024/34 a oedd â'r nod o gyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2034, a darparu manylion ac esboniadau ynghylch y Strategaeth arfaethedig, er mwyn hwyluso cefnogaeth yr Aelodau i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod ar 15 Ebrill.

**11.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024-2034; ac**
**ii) argymell cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Tân ac Achub.**

**12.0 ADRODDIAD DIWEDDARU CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023/24, GAN GYNNWYS RHEOLAETHAU PROSESU ARIANNOL ALLWEDDOL 2023/24; MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2022/23; A RHEOLAETHAU CRAIDD RHEOLI RISG 2023/24**

12.1 Cyflwynodd Angharad Ellis Adroddiad Diweddaru Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 a rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 29 Chwefror 2024.

12.2 Rhoddwyd crynodeb o bob un o'r adroddiadau unigol a ddarparwyd.

12.3 Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid a Chaffael a'i thîm, ynghyd â chydweithwyr o MIAA, am y gwaith a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer yr archwiliad.

**12.4 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2023/24; a**
**ii) Nodi'r gwaith a gwblhawyd rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 29 Chwefror 2024, gan gynnwys yr argymhellion y cytunwyd arnynt ar gyfer gwella pellach.**

**13.0 CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2024/25**

13.1 Amlinellodd Angharad Ellis y cynllun archwilio mewnol arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

13.2 Gofynnodd un Aelod, pe bai angen gwaith ar yr achos busnes ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi Newydd, a fyddai'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio. Cadarnhaodd Angharad Ellis, er nad oedd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio ar hyn o bryd, y gellid ei ychwanegu'n ddiweddarach.

13.3 Amlygodd Dafydd Edwards y byddai dyraniad y dyddiau rhwng yr archwiliadau arfaethedig yn cael ei gytuno cyn dechrau'r cynllun archwilio.

**13.4 PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r rhaglen gwaith archwilio arfaethedig ar gyfer 2024/25 a chymeradwyo'r cynllun strategol tair blynedd.**

## 14.0 CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL ARCHWILIO CYMRU

14.1 Darparodd Carwyn Rees o Archwilio Cymru Grynodeb Archwilio Blynyddol 2023 a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru i'r Aelodau.

**14.2 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r crynodeb archwilio blynyddol.**

## 15.0 MATERION BRYS

15.1 Nid oedd materion brys i'w trafod.

Holodd y PSTC MacArthur a fyddai'n well gan yr Aelodau i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal mewn modd hybrid, a chadarnhaodd yr Aelodau y byddent yn hoffi cael y cyfle hwn. Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf ar 17 Mehefin yn cael ei gynnal mewn modd hybrid.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.19.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Tynnu sylw Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) at y gwaith ymchwil a gwerthuso sy'n cael ei wneud ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r drafodaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno bwriad Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, sydd hefyd yn gyfrifol am Dân ac Achub yng Nghymru, i'r Aelodau ac yn eu cyfeirio at farn ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ar 6 Mehefin 2024.

## ARGYMHELLIAD

3 Bod yr Aelodau'n nodi:

i) Y gwaith a gychwynnwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio gydag Awdurdodau Lleol De Cymru; ac

ii) Ail ran yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol sy'n egluro eu barn am newid y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

## GWYBODAETH

4 Sefydlwyd y trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru drwy dri Gorchymyn Cyfuno ym 1996. Yn sgil y rhain sefydlwyd y tri Awdurdod Tân presennol a'r dull cyllido cyfunol sy'n gweithio drwy godi ardoll ar bob Awdurdod Lleol cyfansoddol.

5 Dim ond un model llywodraethu yw hwn, ond o leiaf mae'n gyson ar draws Cymru gyfan. Yn draddodiadol, bu nifer o fodelau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU, megis y model Cyngor Sir, Awdurdodau Cyfunol ac Awdurdodau Metropolitanaidd. Yn y blynyddoedd diweddar mae hyn wedi'i rannu ymhellach gyda modelau Maerol, Comisiynwyr Heddlu, Troseddu a Thân, Corfforaeth Unigol yn Llundain a Byrddau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

6 Dros y blynyddoedd bu rhywfaint o drafod ynghylch a yw'r model presennol yng Nghymru yn addas ar gyfer y dyfodol ac arweiniodd hyn at Bapur Gwyn yn 2018. Yn y pen draw, penderfynwyd aros gyda'r model llywodraethu presennol ond ymgymryd â gwaith pellach ynghylch cyllido, ond nid aeth hyn yn ei flaen oherwydd Covid.

7 Mae'r mater hwn wedi ei ailgodi o ganlyniad i'r Adolygiad annibynnol o Ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i ymyrryd drwy ddisodli'r Awdurdod Tân gyda Chomisiynwyr.

8 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio wedi ysgrifennu at Arweinwyr Cynghorau yn Ne Cymru yn ddiweddar yn nodi ei hawydd i weithio ar y cyd i ddatblygu model llywodraethu newydd, cliriach a mwy effeithiol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub. Gweler Atodiad 1. Yn ei llythyr mae hi wedi gofyn saith cwestiwn i ysgogi'r broses o feddwl. Mae copi o'r llythyr hwn hefyd wedi cael ei anfon at Arweinwyr holl Gynghorau Cymru.

9 Ar 6 Mehefin 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad o'r enw "Seinio'r Larwm: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub". Mae'r ugain tudalen olaf yn adlewyrchu eu barn ynghylch trefniadau llywodraethu.

10 Yn ogystal, mae Archwilio Cymru wrthi'n ysgrifennu adroddiad i adlewyrchu eu sylwadau hwy ynghylch y trefniadau llywodraethu a bydd yn cael ei rannu gyda'r Aelodau ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae llywodraethu da yn ein galluogi i gyflawni ein Hamcanion Llesiant. |
| Cyllideb | Nid yw'r rhain yn hysbys hyd yma. |
| Cyfreithiol | Bydd unrhyw newid yn y Gorchymyn Cyfuno yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| Staffio | Nid oes ystyriaethau staffio y gwyddom amdanynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Nid oes unrhyw faterion y gwyddom amdanynt yn codi. |
| Risgiau | Y risg bod amser ac adnoddau'n cael eu dargyfeirio i ddatblygu a phrofi modelau llywodraethu amgen, neu ar y llaw arall y risg o fethiant o ran llywodraethu da |

**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/05145/24

Arweinwyr Cynghorau
Awdurdodau Lleol De Cymru

naomi.alleyne@wlga.gov.uk

31 Mai 2024

Annwyl Arweinwyr Cynghorau

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Ebrill ynglŷn â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i benodi Comisiynwyr i oruchwylio Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Roeddwn yn falch o'r cyfle i gwrdd â'r rhan fwyaf ohonoch ar 16 Mai i drafod y materion a godwyd gennych.

Fel y dywedais yn y cyfarfod hwnnw, mae eich mewnbwn yn hanfodol o ran datrys y problemau yn GTADC ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda chi a'r gymuned llywodraeth leol ehangach i ddatblygu'r datrysiad hwnnw. Ymrwymais i drafod yn rheolaidd gyda chi, ac rwy'n disgwyl i'r Comisiynwyr wneud yr un modd.

Roedd llawer o'r problemau o fewn GTADC yn ymwneud â chamymddwyn a rheoli gwael gan swyddogion ac mae'n ofid imi fod unrhyw Aelodau unigol wedi teimlo eu bod yn cael eu beirniadu'n annheg gan benodiad y Comisiynwyr. Gallai cyfathrebu ynghylch y penderfyniad hwnnw fod wedi bod yn well, ac rwy'n ymrwymo i sicrhau y bydd yn well yn y dyfodol. Byddaf hefyd yn ysgrifennu llythyr tebyg at Aelodau GTADC a oedd yn eu swyddi ar adeg yr ymyrraeth.

Serch hynny, gwnaeth y sefyllfa hefyd amlygu problemau o fewn y system lywodraethu bresennol yn y sector ledled Cymru. Unwaith eto, nid wyf yn credu bod hynny'n cynrychioli methiannau ar ran Aelodau unigol yn gymaint â gwendidau systemig yn y model presennol. Fel y dywedais yn y cyfarfod, gallai'r rhain gynnwys: diffyg eglurder ynghylch pwrpas Awdurdod Tân ac Achub mewn perthynas â Gwasanaeth Tân ac Achub; gormod o aelodau; anghydbwysedd dealladwy o ran arbenigedd rhwng Aelodau a swyddogion o ystyried natur dechnegol llawer o waith diffoddwyr tân; a chefnogaeth, hyfforddiant a thâl annigonol i'r Aelodau. Mae diffyg atebolrwydd yn y model ariannol presennol, sy'n dibynnu ar godi cyfraniadau gan awdurdodau lleol, ac mae angen ailedrych ar hwnnw hefyd. Byddai hefyd yn destun gofid pe bai penodiadau i fod yn aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn llai pwysig rhywsut na phenodiadau i gabinetau Cynghorau neu i gadeiryddiaeth pwyllgorau craffu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae arnaf eisiau gweithio gyda llywodraeth leol ledled Cymru gyda'i gilydd i ddatblygu model llywodraethu newydd, cliriach a mwy effeithiol yn y sector.  Rwy'n bwriadu ymweld â phob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf, ac rwyf hefyd yn gobeithio cymryd rhan yn eich cyfarfodydd rhanbarthol a mynd i gyfarfodydd yr Awdurdodau Tân ac Achub.  Mae'r angen am fodel newydd yn fater o frys arbennig yn Ne Cymru, gan y bydd angen iddo fod ar waith i gefnogi diwedd yr ymyrraeth. Rwy'n disgwyl i'r ymyrraeth ddod i ben cyn gynted â phosibl, ac erbyn diwedd tymor presennol y Senedd fan bellaf.  Mae'n ddigon posibl y bydd angen rhyw fath o drefn gysgodol i'r model newydd er mwyn caniatáu hynny.  Fodd bynnag, rwy'n disgwyl defnyddio'r dull gweithredu newydd â'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall hefyd.

I gychwyn ar y gwaith hwnnw, pan wnaethom gwrdd ar 16 Mai, dywedais y byddwn yn croesawu sylwadau ysgrifenedig gennych.  Caiff, a dylai, y rheini ymdrin ag unrhyw fater yr ystyriwch yn berthnasol, ond efallai y byddai'n arbennig o ddefnyddiol canolbwyntio ar y canlynol:

- Beth ddylai pwrpas cyffredinol yr Awdurdod Tân ac Achub fod (e.e. arwain y Gwasanaeth a/neu graffu ar swyddogion)
- Y nifer delfrydol o aelodau ar gyfer Awdurdod tân ac Achub
- Sut y dylid penodi'r Aelodau hynny (e.e. eu henwebu gan awdurdodau lleol a/neu Weinidogion Cymru, a/neu eu cyfethol gan yr Awdurdod Tân ac Achub
- Y gefnogaeth, hyfforddiant a thâl y dylai Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub eu derbyn
- Y strwythurau mewnol y dylai fod gan Awdurdodau Tân ac Achub, ee pwyllgorau craffu
- Y berthynas o ran atebolrwydd y dylai Awdurdodau Tân ac Achub ei chael gydag awdurdodau lleol, cymunedau a Llywodraeth Cymru
- Beth ddylai'r trefniadau cyllido fod (e.e. ardollau, grantiau Llywodraeth Cymru neu braeseptau treth gyngor), a sut i sicrhau atebolrwydd o ran penderfyniadau ynghylch cyllideb a gwariant.

Ar y cam cynnar iawn hwn nid wyf wedi dod i gasgliad ar unrhyw un o'r materion hyn, ac rwy'n eu cynnig i ddarparu strwythur i'n trafodaethau yn unig.  Cytunwyd ar 16 Mai y byddai CLlLC yn cydgysylltu eich ymatebion, ac rwy'n croesawu unrhyw gyfraniad a wnewch, yn ddelfrydol erbyn diwedd mis Mehefin.  Wedyn, byddaf yn ceisio trefnu trafodaethau pellach gyda chi, yn unigol ac ar y cyd.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at rai eraill a oedd yn bresennol yn ein cyfarfod, ac at y Comisiynwyr.  Wrth ystyried y goblygiadau ledled Cymru, rwyf hefyd yn ei gopïo at bob Arweinydd arall ac i Gadeiryddion Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd ac Awdurdod Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

*This document is also available in English.* **Eitem agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Carwyn Rees, Archwilio Cymru** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio 2024** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau Cynllun Archwilio 2024 sy'n rhoi manylion y dull archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Archwilio Cymru yw archwilydd statudol yr Awdurdod ac mae ei waith yn cwmpasu'r datganiadau ariannol, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n deillio o amcanion llesiant yr Awdurdod.

3 Mae'r cynllun archwilio ar gyfer 2024 wedi'i gynnwys yn atodiad 1 ac mae'n cadarnhau cyfrifoldebau'r archwilydd a'r dull gweithredu arfaethedig.

## ARGYMHELLION

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) Nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r cynllun archwilio yn ystyried y trefniadau ar gyfer cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i chynnwys yn amcanion llesiant yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae ystyriaeth i drefniadau'r Awdurdod ar gyfer gwerth am arian wedi'i chynnwys yn y cynllun archwilio. |
| Cyfreithiol | Mae archwiliad allanol o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Ddim yn uniongyrchol berthnasol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Bydd y gwaith archwilio perfformiad yn ystyried ystod o fesurau gan gynnwys cydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb a'r Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol. |
| Risgiau | Bydd gwaith Archwilio Cymru yn cael ei gynllunio o amgylch risgiau hysbys. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cynllun Archwilio Manwl 2024

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2024



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.


Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 7 |
| Perthnasedd datganiadau ariannol | 8 |
| Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol | 9 |
| Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt | 10 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol | 12 |
| Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig | 13 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 14 |
| Ffi a'r tîm archwilio | 15 |
| Secondiad staff | 17 |
| Ansawdd archwilio | 18 |
| Cefnogi chi | 19 |

# Cyflwyniad

Rwyf bellach wedi cwblhau fy ngwaith cynllunio i raddau helaeth.

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl hwn yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae’n nodi’r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i’r afael â’r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2024.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

# Archwiliad o’r datganiadau ariannol

Mae’n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar eich datganiadau ariannol (gan gynnwys Cronfa Bensiwn y y Diffoddwyr Tân) sy’n cynnwys barn ar eu ‘gwirionedd a’u tegwch’ ac a yw’r datganiadau wedi’u paratoi’n briodol yn unol â’r gofynion cyfrifyddu.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a’r nodiadau cysylltiedig ond rwy’n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i’r sawl sy’n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o’r fathi fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

# Gwaith archwilio perfformiad

Rhaid i mi fod wedi fy argyhoeddi fy hun fod yr Awdurdod:

- wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau. Rwy’n gwneud hyn drwy gynnal rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn.
- yn gweithredu yn unol â’r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant a chymryd camau i’w cyflawni.
- O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae’n rhaid i’r Awdurdod roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae’n rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw’r Awdurdod yn debygol o (neu wedi) bodloni y gofynion hyn.

Caiff fy rhaglen waith ei llywio gan faterion a risgiau penodol y mae’r Awdurdod a llywodraeth leol ehangach yng Nghymru yn eu hwynebu. Rwyf hefyd wedi ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud neu ei gynllunio gan gyrff adolygu allanol eraill a chan archwilio mewnol.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad arfaethedig i gydymffurfio â safonau archwilio a nodir gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ambarél byd-eang yw hwn ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

# Cipolwg ar eich archwiliad

**Bydd fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd pwyslais eraill**

Mae fy nghynlluniau archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

- Gwrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr

Meysydd eraill y bydd y gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt

- Prisio rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn
- Prisio tir ac adeiladau
- Tâl Uwch Swyddogion

**Bydd fy archwiliad perfformiad yn cynnwys:**

- Gwaith thematig – Pennu'r Amcanion Llesiant

**Perthnasedd**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | £955,000 |
| Trothwy adrodd | £47,000 |
| Perthnasedd – Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân | £222,000 |
| Trothwy adrodd – Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân | £11,000 |

# Perthnasedd datganiadau ariannol

**Perthnasedd – Prif gyfrifon £955,000**

**- Cronfa bension y Diffoddwyr Tân £222,000**

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai achosi i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain.

Cyfrifir perthnasedd cynllunio gan ddefnyddio:

- Gwariant gros gwirioneddol 2022-23 o £47.7 miliwn
- Gwariant gros gwirioneddol 2022-23 o £11.1 miliwn (Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân)
- Canran perthnasedd o 2%

Rwyf yn adrodd unrhyw gamddatganiad sy'n fwy na lefel ddibwys (a bennir ar berthnasedd o 5%) i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

**Meysydd o ddiddordeb penodol**

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Cydnabyddiaeth ariannol Uwch-swyddogion £1,000
- Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion) £10,000

# Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn

**Arddangosyn 1 – risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
| --- | --- |
| **Gwrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr**<br><br>Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br><br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br><br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; A<br><br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. |

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Rwy'n amlinellu risgiau eraill a nodwyd o gamddatganiadau perthnasol, ac er nad ydynt wedi'u pennu'n risgiau sylweddol fel yr uchod, hoffwn dynnu eich sylw atynt.

**Arddangosyn 2 – meysydd eraill y canolbwyntir arnynt**

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
| --- | --- |
| **Prisio rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn**<br><br>Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) a chronfa bensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, fel y'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol, yn amcangyfrifon perthnasol.<br><br>Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i fân addasiadau yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn ei gyfrifiad.<br><br>Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth. Er enghraifft, disgwylir i'r elfen Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fod yn weddill ar 31 Mawrth 2024, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.<br><br>Ceir hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad y rhwymedigaeth net. | Bydd y tîm archwilio yn:<br><br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;<br>• profi cywirdeb rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn a datgeliadau yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;<br>• asesu rhesymoldeb y tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a dilyn unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen;<br>• asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi'i gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol. |

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio tir ac adeiladau**<br><br>Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.<br><br>Mae'n ofynnol i dir ac adeiladau gael eu dal ar sail prisio sy'n dibynnu ar natur a defnydd yr asedau. Mae'r amcangyfrif hwn yn amodol ar lefel uchel o oddrychedd, yn dibynnu ar y tybiaethau arbenigol a rheoli, a gall newidiadau i'r rhain arwain at newidiadau sylweddol i brisiadau.<br><br>Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd hefyd newid o un flwyddyn i'r llall, ac mae risg y gallai gwerth cario asedau a adlewyrchir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth cyfredol yr asedau ar 31 Mawrth 2024, yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd presennol. Y flwyddyn ailbrisio lawn nesaf yw 2025-26 ond mae'r Awdurdod wedi dewis ailbrisio ei bortffolio asedau eiddo yn 2023-24 i leihau'r risg o gamddatganiad sylweddol. | Bydd y tîm archwilio yn:<br><br>• adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd i'r prisiwr i asesu pa mor gyflawn ydyw;<br>• gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;<br>• profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y sail prisio, y data allweddol a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol;<br>• profi'r cysoniad rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau. |
| **Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-swyddogion:**<br><br>Er nad oes unrhyw newidiadau sylweddol yn nifer yr uwch-swyddogion ar gyfer 2023-24, mae'r gydnabyddiaeth ariannol a delir i uwch-swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol yn naturiol. Felly, gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad sylweddol. | Bydd y tîm archwilio yn:<br><br>• deall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2023-24;<br>• sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol;<br>• sicrhau bod y symiau a delir yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan yr Awdurdod. |

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Nodaf isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| Yr allbwn arfaethedig | Y gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Manwl 2024 | Mai – Mehefin 2024 | Mehefin 2024 |
| Gwaith archwilio'r datganiadau ariannol<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffenaf – Hydref 2024 | Hydref 2024 |

# Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Nodaf isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 4: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni'r allbynnau arfaethedig**

| | | |
|---|---|---|
| **Gwaith prosiect lleol – Pennu'r Amcanion Llesiant** | Adolygiad o sut mae'r Awdurdod wedi gosod ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy | Hydref i Aeaf 2024 |
| **Mesur Llywodraeth Leol 2009** | Archwiliad o'r cynllun gwella ac adroddiad perfformiad. | Cynllun Gwella – Mehefin 2024<br>Adroddiad Perfformiad – Tachwedd 2024 |

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad;
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn ymatebol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a'r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2024, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun ffioedd ar gyfer blwyddyn 2024-25 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae fy nghyfraddau ffioedd wedi cynyddu 6.4% ar gyfartaledd ar gyfer 2024-25, a hynny o ganlyniad i bwysau chwyddiant na ellir eu hosgoi a'r angen parhaus i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio.

Rwyf yn amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd £76,860.

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Awdurdod.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae'r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodir unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

**Arddangosyn 5: dadansoddiad o'r ffi archwilio**

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig ar gyfer 2024 (£)[1] | Ffi ar gyfer 2023 (£) |
|---|---:|---:|
| Archwiliad o'r datganiadau ariannol[2] | 59,432 | 55,857 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 17,428 | 16,380[4] |
| **Cyfanswm y ffi** | **76,860** | **72,237** |

[1] Nid yw'r ffi archwilio yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

[2] Yn daladwy rhwng Tachwedd 2023 a Hydref 2024.

[3] Yn daladwy rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.

4 Amcangyfrif wrth i'r gwaith fynd rhagddo

Mae prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, wedi'u crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Rôl | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Kate Havard | Cyfarwyddwr Archwilio (Archwiliad Ariannol) | kate.havard@archwilio.cymru |
| Gary Emery | Cyfarwyddwr Ymgysylltu/Cyfarwyddwr Archwilio (Archwiliad Perfformiad) | gary.emery@archwilio.cymru |
| Carwyn Rees | Rheolwr Archwilio | carwyn.rees@archwilio.cymru |
| Kieran Vickery | Arweinydd Archwilio (Archwiliad Ariannol) | ellis.williams@archwilio.cymru |
| Charles Rigby | Arweinydd Archwilio (Archwiliad Perfformiad) | charles.rigby@audit.wales |

Gallaf gadarnhau bod pob aelod o'n tîm yn annibynnol ar yr Awdurdod a'ch swyddogion.

# Secondiad staff

Secondiwyd prentis Archwilio Cymru i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am y cyfnod Ionawr i Orffennaf 2024.

Er mwyn diogelu rhag unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilwyr, mae’r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol yn unol â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024 yr FRC:

- ni fydd y secondai yn ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau rheoli; a
- bydd y secondiad am uchafswm o 12 mis.

Roedd hwn yn drefniant dwyochrog, gyda phrentis o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi'i secondio i Archwilio Cymru am yr un cyfnod. Nid yw'r secondai hwn wedi cyfrannu at unrhyw waith archwilio ynghylch yr Awdurdod.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd* ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023.



## Ein Pobl

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



## Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



## Sicrwydd annibynnol

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

# Cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu ystod o adnoddau i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i gefnogi'r cyrff hynny i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Ewch i'n gwefan i weld:

| | |
|---|---|
| | ein gwaith Arfer Da lle rydym yn rhannu arferion a mewnwelediadau newydd o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, egluro ac ysbrydoli. |
| | ein cylchlythyr sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau. |
| | ein cyhoeddiadau sy'n trafod ein gwaith archwilio a gwblhawyd mewn cyrff cyhoeddus. |
| | gwybodaeth am ein blaenraglen o waith archwilio perfformiad 2023-2026 a ffurfiwyd gan weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n darlun o ddadansoddiad gwasanaethau cyhoeddus. |
| | amrywiol offerynnau data a ffeithluniau i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well gan gynnwys amrywiaeth o fewnwelediadau eraill i graffu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. |

Ceir rhagor o wybodaeth am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 ac Ein Strategaeth 2022-27.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis, MIAA** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'n gwybodaeth barhaus am y sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

5 Mae'r adolygiadau archwilio yn rhoi lefel sylweddol o sicrwydd ynghylch digonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sydd ar waith, gyda 23 o argymhellion wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ffurfiol yn ei lle i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

6 Nid yw'r gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n rhoi amod ar y farn hon ac nid oes unrhyw faterion o bwys yn berthnasol wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

7 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig i alluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

**ARGYMHELLION**

8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.

**CEFNDIR**

**Rôl Archwilio Mewnol**

9 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol".

10 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu, i'r rheolwyr, asesiad gwrthrychol ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel bod:

- Y Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a bod
- rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

11 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.

12 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio gyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall yr Awdurdod eu defnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.

## GWYBODAETH

### Barn Archwilio Mewnol 2023/24

13 Mae'r Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol yn fodlon bod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'n gwybodaeth barhaus am y sefydliad a'i ddulliau, yn ein galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r Awdurdod.

14 Y farn a roddir gan y Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol yw bod system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad a'i bod, yn gyffredinol, yn cael ei chymhwyso'n gyson.

15 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt er bod hyn yn rhoi sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr y mae angen eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio.

16 Gellir defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad A

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef hwyluso gwasanaethau tân ac achub ymatebol, o ansawdd uchel sydd wedi'u hintegreiddio'n well fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb mewn argyfwng barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu darparu gan gontractwr allanol cymwys ac o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. |
| Cyfreithiol | Mae'r adroddiad yn cefnogi'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno'n unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan yr archwilydd mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion. |

# Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2023/24

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol

2 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

3 Cwmpas ac Allbynnau Archwilio Mewnol

4 Meysydd i'w hystyried – eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol

5 Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA

# 1 Crynodeb Gweithredol

Rydym yn falch o fod wedi darparu eich gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer 2023/24. Mae uchafbwyntiau ein darpariaeth gwasanaethau wedi'u crynhoi yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24, ynghyd â'r cwmpas a'r allbynnau archwilio mewnol a gynlluniwyd yn ystod 2023/24 a Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA.

| Maes Allweddol | Crynodeb |
|---|---|
| Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Mae’r farn gyffredinol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 yn darparu Sicrwydd Sylweddol, bod system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad, a bod y rheolaethau yn cael eu cymhwyso'n gyson ar y cyfan.<br><br>Mae'r farn hon yn cael ei darparu yn y cyd-destun bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel sefydliadau eraill ar draws y sector cyhoeddus, yn wynebu nifer o faterion heriol a ffactorau sefydliadol ehangach, yn enwedig o ran heriau ariannol a chydweithio cynyddol ar draws sefydliadau a systemau.<br><br>Wrth ddarparu'r farn hon gallwn gadarnhau cydymffurfiaeth barhaus â'r diffiniad o archwilio mewnol (fel y nodir yn eich Siarter Archwilio Mewnol), cod moeseg a safonau proffesiynol. Rydym hefyd yn cadarnhau annibyniaeth sefydliadol y gwaith archwilio ac na fu unrhyw ymyrraeth o ran cwmpasu, cyflawni ac adrodd.<br><br>Diben ein Barn Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a'r Awdurdod Tân sy'n sail i'w hasesiad eu hunain o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. O'r herwydd, mae'n un elfen y mae'r Swyddog Atebol yn ei hystyried wrth wneud ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.<br><br>Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r sefydliad. Mae'r farn yn deillio'n sylweddol o weithrediad cynlluniau sy'n seiliedig ar risg a gynhyrchir o fframwaith sicrwydd cadarn a arweinir gan y sefydliad. |
| Cwmpas ac Allbynnau Archwilio a Gynlluniwyd | Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 wedi'i gyflawni gan ganolbwyntio ar ddarparu eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol. Adroddwyd am y sefyllfa hon yn yr adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ariannol. Mae cwmpas yr adolygiad wedi canolbwyntio ar:<br>• Fframwaith sicrwydd y sefydliad<br>• Adolygiadau craidd a mandadol, gan gynnwys gwaith dilynol; ac<br>• Amrywiaeth o adolygiadau sicrwydd unigol sy'n seiliedig ar risg. |

| Maes Allweddol | Crynodeb |
|---|---|
| | *Dylech gynnwys y testun crynhoi yn y tabl uchod wrth gyfeirio at Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol.* |
| Argymhellion / Camau gan y Rheolwyr | • Rydym wedi nodi 23 o argymhellion fel rhan o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2023/24.<br>• O blith yr argymhellion hyn: roedd 0 yn gritigol ac roedd 1 yn argymhelliad risg uchel yn ymwneud ag adolygiadau o Reolaethau Sefydliadol Seiber.<br>• Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi cyflawni 7 cam gweithredu yn ystod 2023/24.<br>• Cyfanswm yr argymhellion sydd eto i'w gweithredu ar ddiwedd mis Mawrth 2024 yw 16, mae 1 o'r rhain yn risg uchel ac yn ymwneud â'r adolygiad o Reolaethau Sefydliadol Seiber.<br>• O'r 16 cam gweithredu sydd eto i'w cyflawni, nid oes yr un yn hwyr. |
| **Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA** | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhaliwyd gan CIPFA (2020), yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth lawn MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Rydym hefyd yn cynnal asesiadau mewnol rheolaidd i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gwblhau ein hunanasesiad blynyddol o gydymffurfiaeth â PSIAS a gallwn barhau i gadarnhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau hyn.<br><br>Mae MIAA wedi ymrwymo i ddarparu ac arddangos y safonau uchaf o lywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch i ddiogelu nid yn unig ein gwybodaeth a'n systemau ond hefyd y data rydym yn ei gasglu a'i greu trwy ein gweithgareddau archwilio a chynghori gyda chleientiaid.<br><br>Rydym wedi cyflwyno ffurflen Pecyn Cymorth Diogelwch a Diogelu Data y GIG sy'n cydymffurfio yn gyson ac rydym yn un o ddim ond tua 20 o sefydliadau'r GIG sydd wedi'u hardystio i safon Cyber Essentials Plus. Roedd sicrhau ardystiad i'r safon hon yn gofyn am brofion annibynnol trylwyr o'n rheolaethau seiberddiogelwch ar draws ein dyfeisiau. Mae'r ffaith ein bod wedi cael yr ardystiad hwn nid yn unig yn dangos diogelwch ein dyfeisiau ond hefyd yn dilysu'r monitro a'r cynnal a chadw rhagweithiol sydd gennym ar waith i amddiffyn data a systemau rhag bygythiadau maleisus. |

## 2 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Mae eich gwasanaeth archwilio mewnol wedi'i gyflawni yn unol â methodoleg archwilio mewnol MIAA sy'n cydymffurfio â PSIAS. Mae PSIAS yn mynnu ein bod yn cydymffurfio â gofynion moesegol perthnasol, gan gynnwys gofynion annibyniaeth, a'n bod yn cynllunio ac yn cyflawni ein gwaith i gael tystiolaeth ddigonol, briodol i seilio ein casgliad arni.

### 2.1 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r Awdurdod Tân yn atebol ar y cyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol ac mae'n gyfrifol am wneud trefniadau i gael sicrwydd am effeithiolrwydd y system gyffredinol honno.

Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ddatganiad blynyddol gan y Swyddog Atebol ar ran yr Awdurdod Tân, sy'n nodi:

- sut mae cyfrifoldebau unigol y Swyddog Atebol yn cael eu cyflawni o ran cynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion;
- diben y system rheolaeth fewnol trwy gyfrwng disgrifiad o'r prosesau rheoli ac adolygu risg, gan gynnwys proses y Fframwaith Sicrwydd; a’r
- modd y cynhelir yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a’i ganlyniadau, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau o fethiannau rheoli sylweddol ynghyd â sicrwydd bod camau gweithredu yn cael eu cymryd neu y byddant yn cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol i fynd i'r afael â’r materion sy'n codi.

Dylai fframwaith sicrwydd y sefydliad ddwyn ynghyd yr holl dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi gofynion y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Yn unol â PSIAS, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu barn flynyddol, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd ac yn gyfyngedig i hynny, ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg a llywodraethu risg y sefydliad (h.y. system rheolaeth fewnol y sefydliad).  Cyflawnir hyn drwy gynllun gwaith sy'n seiliedig ar risg, y cytunwyd arno gyda'r rheolwyr a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, a all roi sicrwydd, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid a ddisgrifir isod. Darperir canlyniadau a chyflwyniad y cynllun archwilio mewnol yn Adran 4.

### 2.2 Barn

Mae ein barn wedi'i nodi fel a ganlyn:

- Sail y Farn:
- Barn Gyffredinol; a
- Sylwadau

### 2.2.1 Sail y Farn:

Mae'r sail ar gyfer ffurfio ein barn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1 | Asesiad o ddyluniad a gweithrediad y gwaith llywodraethu strategol sylfaenol, trefniadau rheoli risg a phrosesau ategol. |
| 2 | Asesiad o'r ystod o sicrwydd unigol sy'n deillio o'n haseiniadau archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a nodwyd drwy gydol y cyfnod. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y systemau a adolygwyd a chynnydd y rheolwyr o ran mynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd. |
| 3 | Asesiad o ymateb y sefydliad i argymhellion Archwilio Mewnol, ac i ba raddau y cawsant eu gweithredu. |

### 2.2.2 Barn Gyffredinol

Ein barn gyffredinol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 yw:

| | |
|---|---|
| Sicrwydd Uchel - mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y sefydliad, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. | |
| **Sicrwydd Sylweddol** - mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y sefydliad, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol. | ✓ |
| Sicrwydd Cymedrol - mae system ddigonol o reolaeth fewnol, fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y sefydliad. | |
| Sicrwydd Cyfyngedig - mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn effeithio ar y system rheolaeth fewnol gyffredinol ac yn peryglu cyflawni amcanion y sefydliad. | |
| Dim Sicrwydd - mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at fethu â chyflawni amcanion y sefydliad, neu bod hynny eisoes wedi digwydd. | |

### 2.2.3 Sylwadau

Mae'r sylwadau isod yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein barn ac ynghyd â'r farn dylid eu darllen yn eu cyfanrwydd.

Mae ein barn yn ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny, ac mae'n seiliedig ar y gwaith a wnaed drwy'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg.

**Fframwaith Risg a Sicrwydd**

Mae ein gwaith wedi cynnwys adolygu rheolaethau rheoli risg craidd i asesu a ydynt wedi'u cynllunio'n ddigonol. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o'r trefniadau rheoli risg, a chafwyd golwg fanwl ar y mesurau uwchgyfeirio a'r sicrwydd sydd ar waith.

**Adolygiadau Craidd ac Adolygiadau yn Seiliedig ar Risg a Gyhoeddwyd**

Dyma'r hyn a gyhoeddwyd gennym:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim barn sicrwydd **uchel**. | | Dim barn sicrwydd cyfyngedig. | |
| Dwy farn sicrwydd **sylweddol**: | Adolygiad o Reolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol<br>Cyflogres a Rheoli Presenoldeb | Dim barn dim sicrwydd. | |
| Un farn sicrwydd **cymedrol**: | Rheolaethau Sefydliadol Seiber | Dau adolygiad heb sgôr sicrwydd: | Rheoli Risg - Rheolaethau Craidd<br>Y Fenter Twyll Genedlaethol |

**Gwaith Dilynol**

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi gwneud **cynnydd da** o ran gweithredu argymhellion. Byddwn yn parhau i olrhain a mynd ar drywydd y camau gweithredu sy'n weddill.

*Chris Harrop*
Rheolwr Gyfarwyddwr, MIAA
Mawrth 2024

*Louise Cobain*
Cyfarwyddwr Sicrwydd, MIAA
Mawrth 2024

## 3 Cwmpas ac Allbynnau Archwilio Mewnol

Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 wedi'i gyflawni gan ganolbwyntio ar ddarparu eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol. Adroddwyd am y sefyllfa hon yn yr adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ariannol.

O blith yr adolygiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd sgôr sicrwydd mewn tri achos. Nid oedd sgôr sicrwydd yn berthnasol ar gyfer dau adolygiad, oherwydd natur y gwaith hwn. Mae elfen aseiniad archwilio'r Farn wedi'i chyfyngu i gwmpas ac amcanion pob un o'r adolygiadau unigol. Mae gwybodaeth fanwl am gyfyngiadau (gan gynnwys cwmpas ac ymdriniaeth) yr adolygiadau wedi'i darparu yn yr adroddiadau archwilio unigol a thrwy Adroddiadau Cynnydd y Pwyllgor Archwilio drwy gydol y flwyddyn.

Mae crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddarparu isod:

| | Adolygiad | Barn Sicrwydd | Argymhellion a Godwyd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ddim wedi'i Sgorio | Critigol | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
| 1 | Adolygiad o Reolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 4 |
| 2 | Cyflogres a Rheoli Presenoldeb | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | 4 | 3 | 7 |
| 3 | Rheolaethau Sefydliadol Seiber | Cymedrol | 0 | 0 | 1 | 5 | 0 | 6 |
| 4 | Rheolaethau Craidd Rheoli Risg | Amh. | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| 5 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | Amh. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | CYFANSWM | **6** | **0** | **1** | **10** | **6** | **23** |

Nid oedd unrhyw argymhellion risg uchel yn hwyr ar adeg yr adroddiad.

Byddwn yn parhau i olrhain cynnydd ar yr holl argymhellion fel rhan o Gynllun Archwilio Mewnol 2024/25.

| |
|---|
| CEFNOGAETH AC ARWEINIAD CYNGHOROL: Meysydd lle mae MIAA wedi cefnogi'r sefydliad i gryfhau trefniadau ynghylch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. |
| Fe wnaethom adolygu sawl polisi a gweithdrefn, yn cynnwys Polisi chwythu'r chwiban, Gwrth-dwyll a Llygredd, a Rhoddion a Lletygarwch o safbwynt Gwrth-Dwyll. Gwnaed nifer o argymhellion i gryfhau'r polisïau sydd ar waith. |
| Presenoldeb a chefnogaeth mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb. |

| |
|---|
| CYFRANIAD AT WELLIANNAU LLYWODRAETHU, RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL: *Meysydd ychwanegol lle mae MIAA wedi darparu cyfraniadau gwerth ychwanegol.* |
| Sicrhau golwg fanwl ar brosesau Llywodraethu a Sicrwydd cyffredinol drwy gyswllt drwy gydol y flwyddyn gyda'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol / Trysorydd, Uwch Dîm Rheoli a Swyddogion. |
| Ymwneud a pherthynas â'r sefydliad (e.e. mynychu cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb). |
| Ymwneud a chynrychiolaeth barhaus ar Gyrff Cenedlaethol gan gynnwys y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA) a CIPFA gan ein galluogi i fod yn rhagweithiol wrth rannu arfer gorau, meincnodi ehangach a darparu mewnwelediadau cynnar ar faterion cenedlaethol. |

## 4 Meysydd i'w Hystyried – eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn un ffynhonnell sicrwydd sydd gan y sefydliad wrth ddarparu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, a dylid ystyried sicrwydd gan drydydd partïon eraill hefyd. Yn ogystal, dylai'r sefydliad ystyried sicrwydd annibynnol arall sy'n cael ei ystyried yn berthnasol.

Rydym wedi nodi nifer o heriau strategol eraill y dylai'r Swyddog Atebol eu hystyried ar ran yr Awdurdod Tân wrth ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Er y byddai cwmpas y Cynllun Archwilio Mewnol wedi ystyried elfennau o'r rhain, mae'n bwysig bod yr Awdurdod Tân yn adlewyrchu'n ehangach ar sut y dylid cynnwys rhain yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r meysydd i'w hystyried yn cynnwys:


- Partneriaeth / cydweithio ac ymgysylltu ehangach ar draws Ôl Troed Gogledd Cymru.
- Newidiadau i drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol (gan gynnwys yr effaith ar brosesau gwneud penderfyniadau).
- Arweinyddiaeth y Gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol i'r Uwch Dîm Rheoli.
- Gallu, ymgysylltiad, lles a datblygiad y gweithlu.
- Sicrhau bod seilwaith addas i'r diben.
- Diogelwch seiber, risgiau llywodraethu gwybodaeth ac unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig y dylid rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.
- Perthynas a rheolaeth darparwyr trydydd parti y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt, a gwaith darparu sicrwydd rhain.
- Cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, safonau a rheoliadau perthnasol a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016.
- Arolygiadau ac adborth yn ystod 2023/24 gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd datblygu.
- Perfformiad sefydliadol, gan gynnwys heriau wrth gyflawni dyletswyddau ariannol, darparu Cyllidebau yn Seiliedig ar Flaenoriaeth a phwysau gwasanaeth a reolwyd yn ystod y flwyddyn.
- Risgiau a heriau gweithio mewn partneriaeth ehangach.

# 5 Sicrhau Ansawdd

Mae strategaeth MIAA yn cadw ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn ac mae ein dull cyffredinol o sicrhau ansawdd yn cynnwys achrediad ISO9001:2015, cydymffurfio â PSIAS, ansawdd ein pobl a sut rydym yn eu cefnogi, lefelau staffio, mesurau cydymffurfio a chanlyniadau.

## Safonau ac Achrediadau Proffesiynol


Mae MIAA yn cydymffurfio'n llawn ag arfer gorau proffesiynol, safonau archwilio mewnol a gofynion cyfreithiol.



## Mesurau darparu gwasanaethau a chanlyniadau

Mae'n bwysig bod sefydliadau cleientiaid yn sicrhau Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol, ac er bod mesurau mewnbwn a phrosesau yn cynnig rhywfaint o sicrwydd, dylai'r pwyslais fod ar ganlyniadau ac effaith y gwasanaeth. Mae'r ffeithlun ar y dudalen hon yn cadarnhau'r mesurau yr ydym ni'n credu eu bod yn dangos gwasanaeth effeithiol i chi.

Mae MIAA yn adrodd yn rheolaidd ar fewnbwn a phrosesau dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'n hadroddiadau Cynnydd Pwyllgor Archwilio, a gellir asesu'r mesurau effaith ac effeithiolrwydd trwy Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol.



**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Rhif ffôn: 07920150313

E-bost: Anne-marie.Harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Uwch Reolwr Archwilio

Rhif ffôn: 07469378328

E-bost: Angharad.Ellis@miaa.nhs.uk



miaa

*This document is available in English*

Eitem Agenda 9

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Diweddariad Archwilio Mewnol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ac am y cyfnod hyd at 31 Mai 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno a'r cynnydd hyd at 31 Mai 2024.

4 Yn ystod 2023/24, cytunwyd ar gyfanswm o 21 o argymhellion ar gyfer gwella gyda'r rheolwyr. Mae Atodiad 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r rhain.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2023/24; ac yn
ii) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r 21 argymhelliad y cytunwyd arnynt.

**CEFNDIR**

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

8 Penododd yr Awdurdod MIAA fel ei archwilydd mewnol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Mehefin 2023. Cymeradwywyd y Cynllun Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2023.

**GWYBODAETH**

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2023/24 ac yn cadarnhau bod y cynllun y cytunwyd arno wedi'i gyflawni'n llawn.

10 Gwnaed cyfanswm o 21 o argymhellion ar gyfer gwella wrth gyflwyno'r archwiliadau. Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 2 yn cadarnhau bod yr holl argymhellion a gyrhaeddodd y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno wedi'u gweithredu'n llawn.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol a reolir yn gywir yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer gosod cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn unol â pholisïau a dulliau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r archwiliad mewnol o brosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Pwyllgor Archwilio (Mehefin 2024)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol at sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol.

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 ac yn dwyn eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Darperir adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac fe'u cynhwysir ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal, adroddir ar safbwynt dilynol cyfunol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Mawrth 2024 i 31 Mai 2024.

## 3 Crynodeb Gweithredol

| **Adolygiadau Archwilio 2023/24** |
|---|
| Fel yr adroddwyd ym Mhwyllgor Archwilio mis Mawrth 2024, mae Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 wedi'i gwblhau. |

| **Adolygiadau Archwilio 2024/25** |
|---|
| Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill:<br>• Caffael (Gwaith Maes)<br>• Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb (pan fo angen) |

| **Dilyniant** |
|---|
| Mae crynodeb o statws cyfredol yr holl weithgarwch dilynol wedi'i gynnwys fel adroddiad ar wahân. |

| Newidiadau i’r Cynllun Archwilio |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun gwreiddiol ac amlygir hynny ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.<br>Nid oes unrhyw newidiadau wedi’u gwneud i gynllun Archwilio Mewnol 2023/24 yn ystod y flwyddyn. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i gynllun archwilio 2024/25 hyd yn hyn. |

| Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus |
|---|
| Ym mis Ionawr cyhoeddodd Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) diwygiedig.<br>Mae’r Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU wedi cytuno i ddefnyddio’r GIAS newydd fel sail ar gyfer archwilio mewnol ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU. Maent wedi gofyn i Fwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU (IASAB) gynnal adolygiad o’r safonau newydd. Y bwriad yw nodi a chynhyrchu unrhyw ddeongliadau sector-benodol neu ddeunydd arall sydd ei angen i’w gwneud yn addas i’w defnyddio gan sector cyhoeddus y DU.<br>Y dyddiad gweithredu ar gyfer y safonau newydd yn sector cyhoeddus y DU fydd 1 Ebrill 2025. Tan hynny, bydd Safonau Archwilio Mewnol presennol y Sector Cyhoeddus yn parhau i fod yn berthnasol.<br>Pan fydd yr IASAB yn cyhoeddi deunydd i'w gymhwyso yn sector cyhoeddus y DU, bydd MIAA yn adolygu hyn ac yn diwygio ein prosesau os oes angen er mwyn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â’r safonau.<br>Mae’r newyddion diweddaraf gan IASAB ar gael drwy’r ddolen hon: https://www.iasab.org/latest-news |

## Gwerth Ychwanegol

Digwyddiadau

- AI and the Public Sector: Use Cases and Guidance (26 Mehefin 2024): Mae byd deallusrwydd artiffisial (AI) yn datblygu'n gyflym, gan sbarduno cyffro a phryder yn y sector cyhoeddus. Mae ganddo'r potensial i wneud gwahaniaeth sylweddol i iechyd a gofal cymdeithasol. Trwy ei allu i ddadansoddi symiau mawr o wybodaeth gymhleth, mae AI yn cyflwyno cyfleoedd i wella gofal a chynhyrchiant mewn lleoliadau iechyd a gofal. Rydym eisoes yn gweld rhai esiamplau gwych o ddefnyddio AI, ond mae angen gwneud mwy i harneisio buddion y technolegau hyn yn llawn fel y gellir eu defnyddio'n ddiogel ac yn foesegol ar raddfa eang.
- Creating a Restorative, Just and Learning Culture (19 Gorffennaf 2024): Bydd y sesiwn hon yn eich helpu i ddeall sut y gall eich timau/gwasanaethau/sefydliadau greu diwylliannau sy'n meithrin dysgu pan nad yw pethau'n mynd yn ôl y disgwyl. Ar ddiwedd y sesiwn, bydd gan bobl ddealltwriaeth o ddiwylliant cyfiawn sy'n dysgu, yn ogystal â gwybodaeth am sut i gyflwyno hyn yn eu sefydliadau eu hunain.

Mae'r digwyddiadau'n rhad ac am ddim i bob cleient. Gallwch archebu trwy glicio ar y ddolen uchod neu drwy ein gwefan www.miaa.nhs.uk a chlicio ar Events.

## Atodiad A: Perfformiad Contract

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio gyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad eu defnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.

**Gweler isod grynodeb o'r hyn a gyflawnwyd ar gyfer eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24:**

| Maes Barn Pennaeth Archwilio Mewnol (HOIA) | TOR wedi'i Gytuno | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheolaethau Craidd Rheoli Risg | ✓ | Wedi'i gwblhau | Amh. | Mawrth 2024 |
| Systemau Ariannol Allweddol | ✓ | Wedi'i gwblhau | Sylweddol | Mawrth 2024 |
| Menter Twyll Genedlaethol (NFI) | Amh. | Wedi'i gwblhau | Amh. | Rhagfyr 2023 / Mawrth 2024 |
| Y Gyflogres a Rheoli Presenoldeb | ✓ | Wedi'i gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2023 |
| TG – Rheolaethau Sefydliadol Seiber | ✓ | Wedi'i gwblhau | Cymedrol | Mawrth 2024 |
| Dilyniant | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi'i gwblhau gan Archwilwyr Cyngor Conwy | Amh. | Mehefin 2023 |
| Ch4 | Amh. | Wedi'i gwblhau | Amh. | Mehefin 2024 |
| Wrth gefn – Cymorth ac Arweiniad Gwerth Ychwanegol | | | | |
| Adolygiad Polisi a Gweithdrefn | Amh. | Wedi'i gwblhau | Amh. | Amh. |

Os na fyddwn yn gallu cyflawni digon o ddyfnder neu gwmpas, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, efallai y bydd angen i ni gofnodi cafeat ar gyfer barn ac egluro effaith hyn a'r hyn fydd yn cael ei wneud i adfer y sefyllfa yn y dyfodol.

**Mae'r tabl yn crynhoi'r modd y cyflawnwyd eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25:**

| Maes Barn Pennaeth Archwilio Mewnol (HOIA) | Cylch Gorchwyl wedi'i Gytuno | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risgiau | | Cyflawni yn Ch4 | | Mawrth 2025 |
| Rhestr Ddyletswyddau/System Ddyletswyddau Amser Cyflawn | | Cyflawni yn Ch2 | | Rhagfyr 2024 |
| Systemau Ariannol Allweddol | | Cyflawni yn Ch3 | | Mawrth 2025 |
| Caffael | ✓ | Gwaith Maes | | Medi 2024 |
| Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb | Amh. | Yn ôl yr angen | | Amh. |
| Dilyniant | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi'i gwblhau | Amh. | Mehefin 2024 |
| Ch4 | Amh. | Cyflawni yn Ch4 | | |

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Y prif fesur o berfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed. Isod ceir gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu'r perfformiad Archwilio Mewnol.

| Elfen | Cysondeb Adrodd | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyhoeddi Holiadur Boddhad Cleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad Terfynol yn cynnwys holiadur ar gyfer adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunwyd arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Adroddir ar ddilyniant ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwys | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu tra chymwys ac amrywiol sy'n cynnwys 75% o staff cymwys. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhelir gan CIPFA, yn rhoi sicrwydd o gydymffurfedd MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae MIAA yn cydymffurfio â Chod Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. |

## Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gwrdd ag amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gwrdd ag amcanion y system ac mae'r rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol, ond mewn rhai meysydd mae gwendidau yn y cynllun a/neu mae'r rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n anghyson, ac mae hyn yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol o dan fygythiad gan fod gwendidau wrth ddylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau mewn rheolaeth, a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at fethu â chyflawni amcanion y system, neu bod hynny eisoes wedi digwydd. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol, nid yn unig ar amcanion y system, y swyddogaeth neu'r broses, ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses. Er bod gan y gwendid hwn effaith fawr ar y system, y swyddogaeth neu'r broses, nid oes ganddo effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli sydd:<br>• ag effaith fechan ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses;<br>• sydd wedi peri risg allweddol i'r system, y swyddogaeth neu'r broses, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella'r rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw'r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gall fod eu hangen. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth sydd wedi'u cynnwys yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad yw gwallau materol, colled neu dwyll yn bodoli.

Y rheolwyr sy'n gyfrifol am system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall. Ni ddylid dibynnu ar waith archwilio mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau o ran rheolaethau mewnol. Ni ddylid dibynnu arno ychwaith i ganfod pob achos o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol gan reolwyr yn bwysig er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau sydd wedi'u paratoi gan MIAA at eich defnydd chi yn unig. Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar MIAA na'r archwilwyr i unrhyw gyfarwyddwr na swyddog yn eu capasiti unigol. Ni dderbynnir cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi na'i fwriadu ar gyfer unrhyw ddiben arall, ac ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwilio Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

**Anne-Marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Uwch Reolwr Archwilio

Ffôn: 07469 378328

E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk

# Adroddiad Aseiniad Gwaith Dilynol ar Argymhellion 2024/25

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Mehefin 2024

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol

Atodiad A: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

Atodiad B: Dosbarthiad yr Adroddiad

Hoffai MIAA ddiolch i'r holl staff am eu cydweithrediad a'u cymorth wrth gwblhau'r adolygiad hwn.

Mae'r adroddiad wedi'i baratoi fel y'i comisiynwyd gan y sefydliad, ac mae at eich defnydd chi yn unig. Os oes unrhyw gwestiynau am yr adolygiad hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Ymgysylltu. I drafod unrhyw faterion eraill, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr.

# 1 Crynodeb Gweithredol

Rhan allweddol o'r gwaith a wneir gan MIAA fel eich archwilwyr mewnol yw ein bod yn gwneud argymhellion i wella a chryfhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau i gefnogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion. Er mwyn gwirio bod manteision yr argymhellion yn cael eu cyflawni, mae angen gwneud gwaith dilynol ar weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt, er mwyn asesu'n llawn:

- A yw'r gweithredu wedi digwydd ynteu a yw wedi'i ddisodli gan ddigwyddiadau pellach; ac
- A yw'r camau gweithredu wedi cael yr effaith a fwriadwyd.

Mae gwaith dilynol, felly, yn agwedd hanfodol ar y broses archwilio fewnol a'n polisi ni, yn unol â'r cynllun Archwilio Mewnol, yw ailedrych ar aseiniadau blaenorol.

Mae'r tabl dros y dudalen yn nodi'r meysydd a'r argymhellion a adolygwyd y tro hwn a lefel y cynnydd sydd wedi'i gyflawni. Mae ein hadolygiad yn cadarnhau bod cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion.

| Adroddiad Archwilio | Cyfanswm yr argymhellion i wneud gwaith dilynol arnynt | Wedi'u Gweithredu | Yn rhannol | | | | Heb eu Gweithredu | | | | Wedi'u Disodli/ Heb eu Derbyn | | | | Gwaith Dilynol heb ei Wneud Eto | | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cr | U | C | I | Cr | U | C | I | Cr | U | C | I | Heb ei sgorio | Cr | U | C | I | |
| 2023/24 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Y Gyflogres a Rheoli Presenoldeb | 7 | 7 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | Mae'r holl argymhellion wedi'u rhoi ar waith. |
| Adolygiad Rheoli Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | 1 | Nid yw'r holl ddyddiadau ar gyfer gweithredu wedi mynd heibio eto (Gorffennaf 2024).<br>Gwneir gwaith dilynol ar yr argymhellion hyn yn rhan o'r adolygiad o'r Systemau Ariannol Allweddol a drefnwyd ar gyfer Chwarter 3 2024/25. |
| Rheoli Risg - Adolygiad Rheolaethau Craidd | 6 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 6 | - | - | - | - | Nid yw'r holl ddyddiadau ar gyfer gweithredu wedi mynd heibio eto (diwedd mis Medi 2024 a diwedd mis Mawrth 2025).<br>Gwneir gwaith dilynol ar yr argymhellion hyn yn rhan o'r adolygiad Rheoli Risg a drefnwyd ar gyfer Chwarter 4 2024/25. |
| Adolygiad Rheolaethau Sefydliadol Seibr | 6 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | 5 | - | Nid yw'r holl dyddiadau gweithredu wedi mynd heibio eto (diwedd Chwarter 3 2024/25).<br>Dilynir yr argymhellion hyn yn Chwarter 4 2024/25. |
| **CYFANSWM** | 21 | 7 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 6 | - | 1 | 6 | 1 | |

# Atodiad A: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gwrdd ag amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gwrdd ag amcanion y system ac mae'r rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol, ond mewn rhai meysydd mae gwendidau yn y cynllun a/neu mae'r rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n anghyson, ac mae hyn yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol o dan fygythiad gan fod gwendidau wrth ddylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau mewn rheolaeth, a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at fethu â chyflawni amcanion y system, neu bod hynny eisoes wedi digwydd. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
| --- | --- |
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol, nid yn unig ar amcanion y system, y swyddogaeth neu'r broses, ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses. Er bod gan y gwendid hwn effaith fawr ar y system, y swyddogaeth neu'r broses, nid oes ganddo effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli sydd:<br>• ag effaith fechan ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses;<br>• sydd wedi peri risg allweddol i'r system, y swyddogaeth neu'r broses, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella'r rheolaeth gyffredinol. |

# Atodiad B: Dosbarthiad yr Adroddiad

| Enw | Teitl |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| Pwyllgor Archwilio | |

**Angharad Ellis**
**Uwch Reolwr Archwilio**
Ffôn: 07469378328
E-bost: Ann.Ellis@miaa.nhs.uk

### Cyfyngiadau

Mae adroddiadau sydd wedi'u paratoi gan MIAA at eich defnydd chi yn unig. Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar MIAA na'r archwilwyr i unrhyw gyfarwyddwr na swyddog yn eu capasiti unigol. Ni dderbynnir cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi na'i fwriadu ar gyfer unrhyw ddiben arall, ac ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwilio Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

### Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol.

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2023-24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am weithgarwch rheoli trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) God Ymarfer *Treasury Management in the Public Services* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod (neu'r Pwyllgor Archwilio ag awdurdod dirprwyedig) gymeradwyo, fan lleiaf, adroddiadau alldro blynyddol a hanner blwyddyn ynghylch rheoli trysorlys. Yn 2021, roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i adrodd yn chwarterol ar ddangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

3 Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 mewn cyfarfod ar 20 Mawrth 2023. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys y posibilrwydd o golli arian a fuddsoddwyd (adneuon arian parod) ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Mae adnabod, monitro a rheoli'r risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

4 Yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, arhosodd benthyciadau a buddsoddiadau'r Awdurdod ymhell o fewn y terfynau a osodwyd yn wreiddiol, ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd. Nid oedd unrhyw ddiffygdalu newydd gan fanciau lle mae'r Awdurdod wedi adneuo arian. Yn ogystal, roedd incwm buddsoddi gwirioneddol yr Awdurdod yn uwch na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2023/24.

## ARGYMHELLIAD

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) cymeradwyo'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024.

## CYD-DESTUN ALLANOL

6 Parhaodd chwyddiant y DU i ostwng o'r gyfradd o 8.7% a welwyd ar ddechrau 2023/24. Erbyn chwarter olaf y flwyddyn ariannol, roedd y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) wedi gostwng i 3.2% ym mis Mawrth (a 2.3% ym mis Ebrill), ond roedd yn dal yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2% ar ddiwedd y cyfnod (Ch1 2024). Arafodd mesur craidd CPI, h.y. heb gynnwys bwyd ac ynni, ym mis Mawrth hefyd i 4.2% o 5.1% ym mis Ionawr, cyfradd a oedd wedi parhau'n ystyfnig am dri mis yn olynol.

7 Aeth economi'r DU i ddirwasgiad technegol yn ail hanner 2023, wrth i gyfraddau twf o -0.1% a -0.3%, yn y drefn honno, gael eu cofnodi ar gyfer Ch3 a Ch4. O'r data misol diweddar, nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol adlam mewn gweithgarwch gyda'r economi yn ehangu 0.2% ym mis Ionawr 2024. Er y gallai'r economi wella rhywfaint yn Ch1 2024, mae'r data'n awgrymu bod cynnydd blaenorol mewn cyfraddau llog a lefelau prisiau uwch yn gostwng twf, a fydd yn parhau i effeithio ar chwyddiant trwy gydol 2024.

8 Ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol ar 4.25%, cynyddodd Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr Gyfradd y Banc i 5.25% ym mis Awst 2023 wrth i economi'r DU ymddangos yn wydn yn wyneb pwysau deuol chwyddiant a chyfraddau llog uwch. Cafodd Cyfradd y Banc ei chynnal ar 5.25% hyd at fis Mawrth 2024. Er bod marchnadoedd ariannol wedi symud eu disgwyliadau o ran cyfraddau llog i lawr gyda disgwyliadau o doriad yn ddiweddarach yn 2024, roedd ffocws yr MPC yn parhau i fod ar asesu pa mor hir y byddai angen i gyfraddau llog fod yn gyfyngol er mwyn rheoli chwyddiant dros y tymor canolig.

9 Yn dilyn y cyfarfod MPC hwn, cadwodd Arlingclose, sef cynghorydd trysorlys yr awdurdod, at ei farn ganolog mai 5.25% yw'r uchafbwynt o hyd yng Nghyfradd y Banc ac y bydd cyfraddau llog yn debygol o ddechrau cael eu torri yn ddiweddarach yn 2024. Ystyrir bod y risgiau yn y tymor byr yn llai gan y gallai toriad yn y gyfradd ddod yn gynt na'r disgwyl, ond yna'n fwy cytbwys yn y tymor canolig.

10 Mewn ymateb i ragolygon gwell ar gyfer marchnadoedd credyd, ym mis Ionawr 2024 symudodd Arlingclose i ffwrdd o'i safiad dros dro blaenorol o uchafswm hyd o 35 diwrnod a chynyddodd ei derfyn hyd ansicredig uchaf a argymhellir ar gyfer pob banc ar ei restr parti i gontract i 100 diwrnod.

## CYD-DESTUN LLEOL

11 Ar 31 Mawrth 2024, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £17.78m, a hynny'n deillio o wariant cyfalaf.

12 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Ymhellach, Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyca a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir yn fenthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | 31.03.23 Gwirioneddol £m | 31.03.24 Gwirioneddol £m |
|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | 28.88 | 27.94 |
| Benthyca allanol | -26.65 | -17.78 |
| **Benthyca mewnol** | **2.23** | **10.16** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.40 | -13.12 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 4.17 | 2.96 |
| **Benthyca newydd** | **0.00** | **0.00** |

13 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

14 Mae'r sefyllfa rheoli trysorlys ar 31 Mawrth 2024 a'r newid dros y flwyddyn yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.03.23 Balans £m | Symudiad £m | 31.03.24 Balans £m | 31.03.24 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca hirdymor (PWLB) | 17.79 | -3.72 | 14.07 | 1.00 - 4.90 |
| Benthyca byrdymor | 8.86 | -5.15 | 3.71 | 1.30 - 3.91 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-8.87** | **17.78** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | 0.00 | -1.48 | -1.48 | 5.19 - 5.38 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -4.17 | 2.69 | -1.48 | 4.65 - 5.14 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-4.17** | **1.21** | **-2.96** | |
| **Benthyciad net** | **22.48** | **-7.66** | **14.82** | |

**BENTHYCA**

15 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub) fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

16 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

17 Yn unol â strategaeth y trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyg oedd mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel â chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Mae'r hyblygrwydd i ailnegodi benthyciadau, pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid, yn amcan eilaidd. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

18 Mae cyfraddau llog wedi gweld codiadau sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod y codiadau hyn bellach wedi dechrau cyrraedd lefel ddigyfnewid. Gostyngodd arenillion giltiau ddiwedd 2023, gan gyrraedd isafbwynt Ebrill 2023 ym mis Rhagfyr 2023 cyn adlamu i raddau yn ystod tri mis cyntaf 2024. Mae arenillion giltiau wedi aros yn gyfnewidiol, gan weld pwysau tuag i fyny yn sgil y canfyddiad o chwyddiant 'gludiog' ar adegau a phwysau tuag i lawr o ganlyniad i chwyddiant sy'n cwympo ac economi sy'n ei chael hi'n anodd ar adegau eraill.

19 Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd cyfraddau sicrwydd PWLB ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd yn 4.74% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 5.18% ar gyfer benthyciadau 20 mlynedd, a 5.01% ar gyfer benthyciadau 50 mlynedd. Ar 31 Mawrth 2023, y ffigyrau cyfatebol oedd 4.33%, 4.70% a 4.41% yn y drefn honno.

20 Mae cost benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill wedi codi'n gyffredinol gyda'r Gyfradd Sylfaenol dros y flwyddyn. Cyrhaeddodd cyfraddau llog uchafbwynt o tua 7% tua diwedd mis Mawrth 2024 gan fod llawer o awdurdodau angen arian parod ar yr un pryd. Disgwylir i'r cyfraddau hyn ddisgyn yn ôl i lefelau marchnad mwy arferol ym mis Ebrill 2024.

21 Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod £17.78m o fenthyciadau, gostyngiad o £8.67m ar 31 Mawrth 2023, gan adlewyrchu ei strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol a phresennol. Roedd y gostyngiad sylweddol yn ystod y flwyddyn oherwydd gwahaniaethau amseru, mewn perthynas ag incwm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2023 ac oedi mewn gwariant yn ystod 2023/24. Mae'r benthyciadau a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2024 yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca**

| | 31.03.23 Balans £m | Symudiad Net £m | 31.03.24 Balans £m | 31.03.24 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli % | 31.03.24 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 20.65 | -2.86 | 17.78 | 2.46 | 5.77 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 6.00 | -6.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-8.86** | **17.78** | | |

22 Disodlodd yr Awdurdod ei fenthyciadau tymor byr yn 2023/24 ac ar 31 Mawrth 2024 nid oedd ganddo fenthyciadau tymor byr mwyach.

**Tabl 3B: Benthyciadau Dyddiad Hir a fenthycwyd**

| | Swm<br>£m | Cyfradd<br>% | Cyfnod sy'n Weddill<br>(Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00 | 4.80 | 29 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.67 | 3.09 | 14 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.72 | 3.91 | 17 |
| **Benthyciadau dros 5 mlynedd** | **7.39** | | |

23 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, a chynhaliwyd portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

24 Yn ystod 2023/24, ad-dalwyd dau fenthyciad marchnad tymor byr gwerth cyfanswm o £6m. Disodlwyd £3m gan fenthyciad PWLB tymor hir, a gymerwyd yn 2022/23, yn dilyn cyngor gan Arlingclose, ein hymgynghorwyr rheoli trysorlys, a gwnaed hynny pan oedd cyfraddau llog yn ffafriol, ac ariannwyd £3m o fenthyca mewnol, oherwydd yr oedi yn y pryniant tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, gan felly ohirio'r angen i fenthyca nes bod y pryniant tir wedi'i gwblhau.

**GWEITHGARWCH BUDDSODDI'R TRYSORLYS**

25 Mae Cod Rheoli Trysorlys CIPFA bellach yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel y buddsoddiadau hynny sy'n codi o lif arian yr Awdurdod neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio ar gyfer y busnes.

26 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, amrywiodd balansau buddsoddi'r Awdurdod rhwng £1.48m a £14.62m, oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Mae'r rhan fwyaf o'r balans, ar ddiwedd y flwyddyn, yn ymwneud â'r incwm a dderbyniwyd mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, nad yw wedi'i wario ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi'r Trysorlys**

| | 31.03.23<br>Balans<br>£m | Symudiad<br>Net<br>£m | 31.03.24<br>Balans<br>£m | 31.03.24<br>Adenillion<br>Incwm<br>% | 31.03.24<br>Aeddfedrwydd<br>Cyfartalog<br>wedi'i Bwysoli<br>dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau | 4.17 | -2.69 | 1.48 | 4.65 - 5.14 | ar alwad |
| DMADF | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 5.19 | 7 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **4.17** | **-1.21** | **2.96** | | |

27 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

28 Fel y mae meincnod rhwymedigaethau yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Cyfleuster Adnau Cyfrif Rheoli Dyledion Trysorlys y DU (DMADF, a elwir hefyd 'y DMO').

29 Gwelwyd cynnydd o 1% yng nghyfradd y banc, o 4.25% ar ddechrau Ebrill 2023, i 5.25% erbyn diwedd Mawrth 2024. Cododd y cyfraddau ar fuddsoddiadau DMADF hefyd, yn amrywio rhwng 5.17% a 5.29% o log erbyn diwedd mis Mawrth, ac amrywiodd Cyfraddau Marchnad Arian Parod rhwng 4.65% a 5.38%.

**PERFFORMIAD Y TRYSORLYS**

30 Mae'r Awdurdod yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â'r meincnod o ran cyfraddau llog, fel y dangosir yn Nhabl 5 isod.

| | **Cyllideb £m** | **Gwirioneddol £m** | **Dros/ dan** | **Gwirioneddol %** | **Meincnod %** | **Dros/ dan** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llog PWLB | 0.83 | 0.57 | - 0.26 | 68.31% | 5.00 | dan |
| Llog Benthyciadau Marchnad | 0.30 | 0.13 | - 0.17 | 43.33% | 4.50 | dan |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw | 2.00 | 1.90 | - 0.10 | 95.00% | | |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **3.23** | **2.59** | **- 0.64** | **82.97%** | | |
| Buddsoddiadau byrdymor | 0.00 | - 0.43 | - 0.43 | | 5.00 | dros |
| **Cyfanswm buddsoddiadau'r trysorlys** | **0.00** | **- 0.43** | **- 0.43** | | | |

**CYDYMFFURFIAETH**

31 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yng Nghod Rheoli Trysorlys a Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod.

32 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 31.12.23 Gwirioneddol | Wedi Cydymffurfio? Ydy / Nac ydy |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m fesul banc | £1.48m | ydy |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | £1.48m | ydy |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose. | £1m fesul cronfa | 0 | ydy |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | 0 | ydy |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | 0 | ydy |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1biliwn neu fwy | £2m/9 mis | 0 | ydy |

33 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn Nhabl 7 isod.

**Tabl 7: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 31.12.23 Gwirioneddol £m | 2023/24 Ffin Weithredol £m | 2023/24 Terfyn Awdurdodedig £m | Wedi Cydymffurfio? |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 17.78 | 28.99 | 30.99 | Ydy |
| **Cyfanswm y ddyled** | **17.78** | **28.99** | **30.99** | |

34 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

**DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS**

35 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli'r trysorlys.

**Meincnod Rhwymedigaethau**


36 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod rhwymedigaethau a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod rhwymedigaethau yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i benderfyniadau yn sgil hynny.

37 Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

| | **31.03.23 Gwirioneddol £m** | **31.03.24 Gwirioneddol £m** | **31.03.25 Rhagolwg £m** | **31.03.26 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau CFR | 28.88 | 27.94 | 34.40 | 39.70 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.60 | -13.12 | -9.60 | -9.10 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 22.28 | 14.82 | 24.80 | 30.60 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod rhwymedigaethau** | **24.28** | **16.82** | **26.80** | **32.60** |
| **Benthyciadau presennol** | **-26.65** | **-17.78** | **-14.10** | **-10.50** |

38 Nid yw'r rhagolygon uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, gan nad yw'r Awdurdod wedi cytuno ar hynny eto.

39 Yn dilyn ymlaen o'r rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod rhwymedigaethau hirdymor yn rhagdybio gwariant cyfalaf a ariennir drwy fenthyca o £4m - £6m rhwng 2023/24 a 2025/26, isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar oes yr asedau presennol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu, incwm a gwariant yn cynyddu yn ôl chwyddiant o 2.5% y flwyddyn a gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol yr Awdurdod.




40 Mae'r graff yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl y bydd angen iddo fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod neu gronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

41 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Rhwymedigaethau. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthyca.

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

42 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

| | **31.03.24 Gwirioneddol** | **Terfyn Gwirioneddol** | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** | **Wedi cydymffurfio Ydy/Nac ydy** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 2.20 | 12.42% | 60.00% | 0.00% | Ydy |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 4.49 | 25.24% | 45.00% | 0.00% | Y |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 3.70 | 20.80% | 45.00% | 0.00% | Y |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 0.00 | 0.00% | 75.00% | 0.00% | Y |
| 10 mlynedd a mwy | 7.39 | 41.54% | 100.00% | 0.00% | Y |

43 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor**

44 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |